**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR YN HEOL Y CAPEL, CAERFYRDDIN, SIR GAERFYRDDIN) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o'r Ddeddf gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar 9 Chwefror 2017 o dan y cyfeirnod W/34922.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir yn Heol y Capel, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin) 2021 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Caerfyrddin, Heol San Pedr, Caerfyrddin SA31 1LN, eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1418885.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 28 Gorffennaf 2021, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND AT CHAPEL STREET, CARMARTHEN, CARMARTHENSHIRE) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up is authorised only in order to enable the development described in Schedule 2 to this Notice to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the Act by Carmarthenshire County Council on 9 February 2017 with reference number W/34922.

The Stopping Up of Highways (Land at Chapel Street, Carmarthen, Carmarthenshire) Order 2021 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge at Carmarthen Library, St Peter's Street, Carmarthen, SA31 1LN, can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1418885.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the Act; or

b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 28 July 2021 make an application for the purpose to the High Court.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ogleddol pen de-orllewinol Heol y Capel, Caerfyrddin, sy'n 13.7 o fetrau yn y man hiraf ac yn 4 metr yn y man lletaf ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**Y datblygiad**

Adeiladu 3 uned gyfagos ar ffurf ciosg i'w defnyddio ar gyfer manwerthu ar dir cyhoeddus presennol i gerddwyr yn Heol y Capel, Caerfyrddin. Mae hyn yn rhan o brosiect adfywio ehangach i ddatblygu Sgwâr Jackson yn ganolfan ddiwylliannol a busnes yn yr hen dref, Caerfyrddin.

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**
**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway located on the northern side of the south-western end of Chapel Street, Carmarthen with a maximum length of 13.7 metres and a maximum width of 4 metres shown by zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**The development**

The construction of 3 adjoining kiosk-style units for retail use on existing pedestrian public realm at Chapel Street, Carmarthen. This forms part of a wider regeneration project to develop Jackson's Square as a cultural and business hub within the old quarter of Carmarthen.